

Cyngor Cymuned Bryn-crug Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 25ain o Fai 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard Evans

Yn absenoldeb y Cadeirydd, etholwyd y Cynghorydd Bethan Lawton i'r gadair.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Heddlu Gogledd Cymru - trafod cychwyn monitro cyflymder modurwyr gan ddefnyddio gwirfoddolwyr, a thrafod materion troseddu cyffredinol yn y pentref:

Croesawyd John Morris, Rheolwr Gwylio Cyflymder Cymuned Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Adroddwyd:

- Y Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol wedi cychwyn yn 2016, yn Wrecsam, gan symud wedyn i ardaloedd eraill, fel Ynys Môn a Gwynedd.
- Gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant gan yr Heddlu, ac yn derbyn offer fel siacedi llachar melyn.
- Y gwirfoddolwyr yn mesur cyflymder, gan anfon manylion y cerbyd ymlaen i swyddfa'r Heddlu yn Llanelwy os yw'r gyrrwr yn mynd dros y cyflymder.
- Swyddfa'r Heddlu yn anfon llythyrau allan yn hysbysu perchennog y car.
- Y llythyr yn gofyn iddynt barchu'r cyflymder pan yn teithio drwy pentrefi.
- Dywedwyd bod y cynllun yn gweithio, gyda gwirfoddolwyr rŵan yn gweld modurwyr yn teithio 35-39mya, ar cychwyn y cynllun 'roeddynt yn gweld modurwyr yn gwneud 40-45 mya.
- Pe byddai ail lythyr yn cael ei anfon i'r un perchennog car mewn blwyddyn, mae'r uned traffig yn cael eu hysbysu.
- Mae 95% o fodurwyr ddim yn derbyn ail lythyr.
- Yn 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn newid y cyflymder ar y ffyrdd bychain sydd yn mynd drwy pentrefi, gan ostwng y cyflymder o 30mya i 20mya. Sbaen eisoes wedi gwneud hyn, a Cymru fydd yr ail wlad i wneud. Bydd Cynghorau Sir angen cyflwyno achos er mwyn codi'r cyflymder yn ôl i 30mya. Bwriedir neud treial ym Mwcle ym mis Awst neu Medi er mwyn gweld sut mae'r 20mya yn gweithio.
- Dywedwyd nad oes unrhyw dystiolaeth neu enghraifft o wirfoddolwyr yn cael eu targedu am wirfoddoli.
- I'r cynllun weithio, byddai angen 2 neu 3 o wirfoddolwyr er mwyn cynnal sesiwn.
- Bydd y swyddogion PCSO ar gael ar gyfer helpu yn y sesiwn gyntaf, ac efallai yr ail. Byddai'r swyddogion hefyd ar gael ar brydiau er mwyn dangos eu presenoldeb.
- Eglurwyd mai'r cam nesaf yw canfod oes diddordeb yn y pentref i gael y cynllun. Wedyn gall fynychu cyfarfod cyhoeddus er mwyn egluro'r cynllun.
- Pe byddai cynllun ym Mryn-crug, byddai'r Heddlu yn rhoi menthyg y teclyn mesur cyflymder am 2/3 mis. Neu mae modd i Gyngor Cymuned Bryn-crug brynu un am oddeutu £100-£120 er mwyn cael un i'r pentref.
- Nodwyd bod cost system sydd yn mesur cyfartaledd cyflymder modurwyr yn ddrud iawn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I roi hysbyseb ar dudalen Facebook Bryn-crug yn gofyn oes diddordeb mewn cael cynllun yn y pentref.
I estyn gwahoddiad i swyddogion PCSO fynychu cyfarfod mis Gorffennaf 2021.

4. Derbyn cofnodion 19 Ebrill 2021:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
I gysylltu gyda GL Jones er mwyn gofyn am ddyddiad pryd fydd y sleid newydd yn cael ei osod.
Anfon llythyr at Cyngor Gwynedd parthed y bont frics, egluro bod dŵr yn casglu a polion wedi pydru.

5. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101741	£188.32
Cyllid a Thollau EM	YG	101742	£47.20
Un Llais Cymru	Aelodaeth	101743	£127.00
Hefin Pugh	Torri gwrychoedd	101744	£55.20

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

6. Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Ciosg Teleffon yn Nolgoch:

PENDERFYNIAD: I wrthwynebu cynlluniau BT i gael gwared o'r ciosg.

7. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - Llythyr o ddiolch:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Ymgynghoriad - Adeiladu dyfodol iachach yn dilyn COVID-19: Dweud eich dweud:

PENDERFYNIAD: Cynghorwyr i gwblhau'r holiadur fel cynghorwyr unigol.

9. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio:

Yr oedd aelod o'r cyhoedd yn gofyn i'r cyngor brynu peiriant ar gyfer cabinet allanol ar adeilad tafarn y Peniarth. Yr oedd cabinet ar yr adeilad, ond nid oedd peiriant.

PENDERFYNIAD: Y dylid ceisio cael peiriant ychwanegol i'r peiriant, gan roi un ar adeilad y Pafiliwn yn y cae chwarae.
I edrych am grantiau a trafod y mater fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf o'r cyngor.

10. Biosffer Dyfi - Holiadur Cynghorau Cymuned:

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Bethan Lawton a'r Clerc i gwblhau'r holiadur ar ran y cyngor.

11. Cymru dros Ewrop - Cynllun Setliad yr UE:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

12. Gorr-yrru yn y pentref - arwydd mesur cyflymder:

Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn gan y cwmni i gwestiynau'r cyngor.

PENDERFYNIAD: I adael y mater ar y bwrdd.
I anfon y cwestiynau ymlaen am yr ail waith at y cwmni, ElanCity.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-cwynion wedi eu derbyn am rai o'r offer pren, sef y Trim Trail
-y mesurydd trydan yn y Pafiliwn yn dangos balans -£199
-Canllaw pren y tu allan i'r toiled anabl wedi pydru

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I Cynghorydd Alan Jones i dynnu'r canllaw pren.

14. Cae Chwarae - Cais gan unigolyn sydd yn ceisio ffurfio tîm pêl-droed o'r newydd i gael cyd-rannu'r cae pêl-droed gyda chlwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug:

PENDERFYNIAD: I ofyn am ragor o fanylion, sef oes clwb ffurfiol gyda chyfansoddiad wedi ei sefydlu, ym mha gynghrair fydd y tîm yn chwarae, oes pwyllgor ac yswiriant gan y tîm. Gan nad oedd y cais yn glir iawn, i ofyn am wybodaeth parthed y defnydd, a'r defnydd achlysurol i gicio pêl oedd cais.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- Wedi mynychu cyfarfod Coleg Meirion-Dwyfor. Y coleg ar agor, nifer uchel yn gwneud Lefel A, nifer o geisiadau wedi ei dderbyn ar gyfer cyrsiau gofal. Budd buddsoddiad mawn yn y coleg dros y blynyddoedd nesaf.
- Problem gyda'r llwybr cyhoeddus y tu ôl i'r ffatri, coeden dderw wedi marw. Swyddog Hawliau Tramwy yn ymwybodol ac am fynd i edrych ar y goeden. Cwestiynu pwy sydd yn gyfrifol am ddymchwel y goeden?
- Wedi mynychu cyfarfod iechyd, Ysbyty Bronglais wedi ail agor. Wroleg yn ôl i Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Bronglais.
- contractwr y cyngor wedi paentio'r seddi yn y Gardd Fach.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:00pm

Llofnod y Cadeirydd